❖ Mae'n Gyflawn Awr Nadolig

Mae'n gyflawn awr Nadolig
A'r seren em ar daen,
A chysgod mud y doethion
Yn mudo dros y waun:
A chyda hwy awn ninnau
Hyd lety'r wyryf dlawd
I rythu mewn rhyfeddod
Ar Dduw mewn gwisg o gnawd.

Dros fryniau dinas Dafydd
Mae nef oleuni gwyn,
A'r twr bugeiliaid ofnus
Dan gryndod neges syn:
Ond dringo wnawn ni atynt
Er brysio tua'r dre
I foli'r Oen a anwyd
I farw yn ein lle.

Yn Llys penllanw hanes
Ceir teyrn ar orsedd braw
A dicter hunanoldeb
Yn fwrdwr yn ei law:
Ond ato awn er hynny
I herio'r unben bras
Yng ngrym yr oruchafiaeth
Sy'n nemocratiaeth gras.

Mewn llety oer ym Methle'm
Mae llysdad yn hundroi,
A'r angel yn ei ddeffro
Â hergwd frys i ffoi:
Awn ninnau ato heno
I warchod baban Mair
Gan wybod mor ddi-allu
Yw'r Hollalluog Air.

D. Gerald Jones